

# ADFENT 2019

## “Ymddangosodd gras Duw”

Ar draws y byd mae Cristnogion wedi cychwyn ar dymor yr Adfent.

Y mae i'r dathliadau, o'r cychwyn cyntaf, dwy elfen.

Elfennau ydynt sy'n herio'n dealltwriaeth ysgafn am ddyfodiad Iesu Grist yn “faban bach” i'w anwylo yn sentimentalrwydd yr hyn sy'n pasio am “Nadolig” ein crefyddda cyfoes.

Mae'r elfen gyntaf yn nathliadau'r Adfent yn ein tywys i edrych ymlaen am gyflawni'r addewidion, “darfu i Moses a'r proffwydi ddweud amdano cyn ei ddod.” Dyna a gofiwn ar adeg y Nadolig. Mae'r Arglwydd yn cadw'i air yn ei Air!

### Dyma yn wir rhyfeddod yr Ymgawdoliad:

*Fe'n carodd gymaint nes iddo, er ein mwyn,  
Ddod yn ddyn, mewn byd o amser,  
Er mai trwyddo ef y crëwyd pob amser.  
Cafodd ei wneud yn ddyn – yr un a wnaeth ddyn*

### Dalier Sylw CYHOEDDIADAU

Dymuna'r Parch Elfed ap Nefydd Roberts hysbysu eglwysi ac Ysgrifenyddion Cyhoeddiadau na fydd yn cael aildechrau pregethu fel roedd wedi gobeithio'i wneud yn y flwyddyn newydd ac felly y mae'n rhaid iddo dynnu ei gyhoeddiadau yn ôl am rai misoedd eto.

Y mae'n ymddiheuro am greu anhwylostod ond yn gobeithio y daw pethau'n well yn gymharol fuan.




*Cafodd ei greu gan fam yr oedd ef wedi ei chreu*

*Cafodd ei gario gan ddwylo yr oedd ef ei hun wedi eu llunio*

*Criodd yn ei breseb mewn babandod di-air ac yntau'n Air heb yr hwn mae pob huodled yn fud.*

**Awstin Sant**



Ond trwy ail elfen y dathlu cawn ein tywys i fynd heibio i amserlen hanesyddol ein hiachawdwriaeth, heibio i'r dathliadau am ddyfodiad Iesu adeg y Nadolig. Mae'r Adfent yn estyn cyfle i ni edrych ymlaen, i glywed ac i wrando ac i synhwyro o'r newydd, trwy ffydd, rym ac ergyd addewidion Gair Duw. Nid y Nadolig, y Pasg a'r Atgyfodiad yw

pendraw'r naratif Beiblaidd. Cyflawnir gwaith gras a holl addewidion gras pan fydd addewidion yr Arglwydd ei hun, y gwaith da a gychwynnodd, yn cael ei dwyn i gyflawnder yn nyfodiad Iesu Grist yr eilwaith. Y tro hwn ni fydd yn dod mewn gostyngedd rwydd ond fel unig Waredwr, Penarglwydd a Barnwr byd.

Dyna'r hyn sy'n cael ei grisialu yn yr emyn draddodiadol hwn. (Caiff ei chanu ar emyn dôn

Helmseley) Mae'n crynhoi mawredd, arswyd a gobaith yr addewidion a wnaed.

Ac i lawer o eglwysi ar draws y byd bu'r emyn yn ddatganiad cyhoeddus o ffydd a disgwyliad ar ddechrau'r Adfent.

Wle'n dyfod ar gymylau,  
Farnwr dyn a Brenin nef;  
Myrdd myrddiynau sydd o'i Seintiau  
Yn ei amgylchynu ef;  
Alelwia!  
Iesu a deyrnasa byth.

Dacw'r Barnwr yn ei gerbyd,  
Utgyrn fyrdd yn canu o'i flaen;  
Cydyngasgl y meirw cysglyd  
Oll gerbron ei orsedd lân;  
Alelwia!  
Dyma ddydd gogoniant Crist.

Gorfoledda'r holl ffyddloniaid,  
A'u llawenydd fydd yn llawn;  
Dyma'u Prynwr mawr bendigaid,  
A'u Gwaredwr annwyl iawn;  
Alelwia!  
Byddant mwyach gydag ef.

1: *Priodolir i Charles Wesley*  
2-3: *efel. Benjamin Francis 1734-99*